



SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU

Ymladd Troseddau Cyfundrefnol mewn Partneriaeth

ATAL | MYND AR DRYWYDD | DIOGELU | PARATOI

Proffil Problemau

Dyddiad: 20 Awst 2024

**Awdur: 58318 Georgia Christensen, Dadansoddwr Cudd-wybodaeth,
Morgannwg Ganol**

Perchennog yr Adroddiad: 5435 Daniel Parry, Diogelwch Cymunedol

Trin a thrafod

Gan ddefnyddio cynllun dosbarthu diogelwch y llywodraeth (GSC), mae'r ddogfen hon wedi'i dosbarthu â chod trin **SWYDDOGOL**.

Gellir rhannu'r adroddiad yn eang o fewn y llu ag unrhyw aelodau staff a fyddai'n elwa ar gael mynediad at y wybodaeth. Mae hon yn gynnyrch strategol ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol na thactegol felly gall fod yn briodol i'w rhannu â phartneriaid dibynadwy. Fodd bynnag, dim ond gyda chaniatâd perchennog yr adroddiad ac ar yr amod na cheir ei ledaenu ymhellach y dylid ei rannu, cyfeirir ato, neu ei gyhoeddi'n llawn neu'n rhannol, drwy unrhyw gyfryngau heb ganiatâd ymlaen llaw.

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	2
1.1	Cyflwyniad	2
2	Prif Ganfyddiadau	2
2.1	Trosolwg	2
3	Methodoleg	3
4	Dadansoddiad	4
4.1	Beth	4
4.1.1	The Phoenix	6
4.1.2	Edens Bar	6
4.1.3	Roof	6
4.1.4	Tair Pluen.....	6
4.1.5	The Wyndham Arms	7
4.2	Ble	7
4.3	Pryd	9
4.4	Pwy	10
4.4.1	Y Dioddefwyr	10
4.4.2	Y Sawl Dan Amheuaeth	11
4.5	Pam	12
5	Casgliad	13
6	Atodiad	14



1 CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1

Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig. Diben hyn yw deall effaith safle trwyddedig ar y troseddau a'r digwyddiadau a brofwyd yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr a'r galw dilynol ar yr heddlu.

2 PRIF GANFYDDIADAU

2.1 Trosolwg

Yn ystod y cyfnod 01/07/2023 – 30/06/2024 cafwyd 311 o ddigwyddiadau, a chynnydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan welwyd 287 o ddigwyddiadau. Roedd 37% o'r digwyddiadau hyn yn droseddau Trais yn erbyn y Person (116), cynnydd bach o'i gymharu â'r llynedd, gyda'r math o achosion nesaf ar y rhestr yn Bryder am Ddiogelwch ar 13% (40). Roedd 72% o'r digwyddiadau Trais yn erbyn y Person yn ymwneud ag Ymosodiad gydag Anaf ac Ymosodiad Cyffredin a Churo. Gwelwyd cynnydd yn y ddau fath o drosedd hyn, gydag ymosodiad gydag anaf bron yn dyblu. Roedd digwyddiadau Pryder am Ddiogelwch yn ymwneud yn bennaf ag unigolion meddw iawn. Y trydydd math o ddigwyddiad mwyaf cyffredin yw digwyddiadau sy'n gysylltiedig â throsedd sy'n gyfuniad o wahanol ddigwyddiadau gan gynnwys pethau fel lladrad, treisio, a gyrru cerbyd modur dros y terfyn rhagnodedig.

Ar ôl ymosodiadau, y math mwyaf cyffredin o drosedd oedd meddw ac afreolus (21), meddiant cocên (11) ac ofn neu bryfocio trais (4). Prin oedd y digwyddiadau a welodd arfau (12) a dim ond 1 a welodd arf yn cael ei ddefnyddio, sef gwydr. Roedd 20 o ddigwyddiadau (6%) yn cynnwys cyffuriau, a'r mwyafrif o'r rhain yn feddiant, neu unigolion yn cael eu symud o'r safle ar ôl cael eu gweld yn defnyddio neu'n delio cyffuriau a dod yn ymosodol o ganlyniad i hyn. Y cyffuriau dan sylw oedd (amheuir) cocên mewn 90% o ddigwyddiadau, gyda'r gweddill yn ganabis. Digwyddodd y mwyafrif o'r rhain yn Edens Bar ar Stryd y Farchnad.

Profodd The Phoenix y nifer uchaf o ddigwyddiadau a thrais, gydag Edens yn agos ar ei ôl. Mae'r 5 safle trwyddedig uchaf o ran nifer y digwyddiadau, sydd hefyd yn cynnwys Tair Pluen, The Roof a The Wyndham Arms, yn cyfrif am 70% o'r holl ddigwyddiadau. Mae pob un o'r safleoedd hyn yn agos at ei gilydd ar strydoedd cyfagos; Wyndham Street a Stryd y Farchnad. Bu cynnydd hefyd mewn digwyddiadau yn y Railway Inn, Kings Head a'r Three Horse Shoes. Fodd bynnag, mae'r Railway Inn newydd gyhoeddi ei fod wedi cau.

Y diwrnod brig ar gyfer digwyddiadau yw nos Sadwrn ac i mewn i fore Sul, ac eithrio'r Tair Pluen sy'n gweld ei uchafbwynt ar ddydd Iau rhwng 6pm a 9pm. Yr amser brig yn gyffredinol yw rhwng 2am a 3am, gan aros yn uchel tan 5am. 2am yw pryd mae'r safle cyntaf yn dechrau rhoi'r gorau i werthu alcohol ac yn dechrau cau, sy'n debygol o esbonio'r cynnydd mewn trais oherwydd y mewnlif o unigolion meddw ac agored i niwed sy'n mynd allan i'r prif strydoedd ac i drafnidiaeth gyhoeddus. Y misoedd brig yw mis Rhagfyr, Ebrill a Mai, sy'n ddisgwyliedig oherwydd y gwyliau sy'n digwydd yn ystod y misoedd hyn.

Roedd dioddefwyr yn fwy tebygol o fod yn ddynion rhwng 18 a 34 oed ac roedd y sawl dan amheuaeth yn sylweddol fwy tebygol o fod yn ddynion rhwng 18 a 44 oed. Mae cynrychiolaeth uchel o ddynion yn awgrymu y gallai elfen o ddiwylliant ymhlith dynion iau i ganol oed wneud yr unigolion hyn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn yfed alcohol y tu hwnt i'w gallu ac yna trais.



Mae'n debygol bod agosrwydd y safleoedd yn ffactor gwaethygu gan ei fod yn debygol o arwain at fewnlif sydyn o unigolion meddw ac agored i niwed, wedi'i waethygu gan y ffaith bod gan 3 o'r pum safle brig yr un oriau cau ar y diwrnod brig, sef dydd Sadwrn. Gall fod yn fuddiol felly, wasgaru'r amseroedd cau, yn enwedig ar ddydd Sadwrn i oriau mân dydd Sul.

Nid oes gan yr heddlu yr adnoddau i gymedroli a rhianta economi'r nos, fodd bynnag, mae yna gamau eraill a allai leihau nifer y digwyddiadau. Un dull posibl efallai yw defnyddio rhwystrau, fel y rhai a roddir ar waith mewn stadia yn ystod digwyddiadau, sy'n cyfeirio unigolion sy'n gadael lleoliadau i wahanol gyfeiriadau. Gallai hyn helpu i leihau nifer yr unigolion mewn mannau problemus yn ystod oriau gwerthu alcohol ac amser cau. Un ardal lle mae unigolion yn ymgasglu yw safleoedd tacsï, felly gallai fod yn ddefnyddiol gweithredu swyddogion tacsï i reoli ciwiau a chasgliadau o bobl. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd gyfleu negeseuon drwy bosteri, wedi'u lleoli'n strategol ar lefel y llygad lle mae unigolion mewn safleoedd trwyddedig yn sefyll, e.e. toiledau, yn y bar, wrth giwio y tu allan. Ni all posterï gefnogi plismona yn gorfforol, ond ni ddylid anwybyddu'r syniad o beri i unigolyn feddwl ddwywaith am ei weithredoedd, yn enwedig drwy ddefnyddio iaith emosiynol ac arddangos canlyniadau. Yn enwedig o ran trais a'i ganlyniad angheuol posibl, gwybod eich terfynau a pheidio â rhoi alcohol i ffrindiau meddw.

3 METHODOLEG

Defnyddio digwyddiadau a dynnwyd o Niche sy'n ateb y paramedrau o ddigwydd rhwng 01/07/2023 a 30/06/2024 ac y tu mewn neu'r tu allan i safle trwyddedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yw'r man cyfarfod rhwng tri heddlu; **Castellnewydd, Morfa, a Phen-y-bont ar Ogwr**. Mae digwyddiadau y tu allan i safleoedd trwyddedig wedi'u cynnwys os oedd y sawl dan sylw wedi bod y tu mewn i'r safle trwyddedig hwnnw yn ddiweddar. Mae digwyddiadau wedi'u cynnwys hefyd lle mae'n amlwg bod y sawl dan sylw wedi bod mewn safle trwyddedig canolog yn ddiweddar hyd yn oed os na ellir ei gysylltu â safle penodol. Bydd paramedrau canol y dref yn cael eu harddangos ar fap. Mae'n cynnwys canol y dref ac mae wedi'i ehangu rhywfaint i gynnwys Cae'r Bragdy a'r safleoedd trwyddedig ar hyd Heol y Bont-faen gan fod y rhain yn hawdd eu cyrraedd o ganol y dref, ac felly mae'n debygol y bydd y sawl dan sylw yn symud rhwng y safleoedd hyn a lleoliadau canol y ddinas.



4

DADANSODDIAD

4.1

Beth

Yn ystod y cyfnod roedd 311 o ddigwyddiadau â safle trwyddedig yn gysylltiedig â nhw. Mae hyn yn gynydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan welwyd 287 o ddigwyddiadau. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd y tu mewn i safle trwyddedig, y tu allan i ddrws safle trwyddedig yn syth ar ôl i'r sawl dan sylw adael y safle neu yn fuan ar ôl gadael y safle. Dim ond os gellir cysylltu digwyddiadau yn glir â safle trwyddedig y maent wedi'u cynnwys. Mae'r safleoedd trwyddedig wedi'u rhestru yn yr Atodiad.

Math o Ddigwyddiad	Nifer y Digwyddiadau 2022-2023	Nifer y Digwyddiadau 2023-2024
CR37 Trais yn Erbyn y Person	92	116
PS10 Pryder am Ddiogelwch	36	40
CR45 Digwyddiad sy'n Gysylltiedig â Throsedd	31	29
AN18 Niwsans Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	35	25
CR31 Cyffuriau	22	18
TR6 Trosedd sy'n Gysylltiedig â'r Ffyrdd	17	15
CR41 Dwyn a Thrin	11	14
CR43 Difrod	4	11

Tabl 1: Mathau o ddigwyddiadau yn ôl nifer

Y math o ddigwyddiad mwyaf cyffredin a welwyd mewn cysylltiad â safle trwyddedig oedd Trais yn Erbyn y Person, sy'n cyfrif am 37% o'r holl ddigwyddiadau. Yn dilyn hyn mae Pryder am Ddiogelwch ar 13%. Mae'r gyfran o fathau o droseddau yn gymharol debyg i'r llynedd, fodd bynnag mae trais yn erbyn y person wedi gweld cynnydd ac mae niwsans ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng.

Roedd CR37 Trais yn erbyn y Person yn droseddau ymosodiad gydag anaf ac ymosodiad cyffredin a churo yn bennaf gyda'r 2 gategori hyn o drosedd yn cyfrif am 72% o'r CR37au. Roedd digwyddiadau pryder am ddiogelwch yn ymwneud yn bennaf ag unigolion a oedd yn feddw iawn ac o ganlyniad naill ai'n achosi aflonyddwch neu ddim yn gallu cael eu hunain adref yn ddiogel. Roedd 4 o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â phryder am les plant lle'r oedd gan oedolion meddw blant yn eu gofal ac roedd 3 yn gysylltiedig ag ieuchyd meddwl.

Roedd CR45 Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Throsedd yn gyfuniad o wahanol droseddau gan gynnwys 5 Ymosodiad, 5 unigolyn ymosodol, 5 achos o ymladd, 2 feddw ac afreolus, 2 ymosodiad rhywiol a 2 lardrad. Gwelodd y math hwn o ddigwyddiad 1 yr un o Yrru Cerbyd sy'n Symud ar ôl gormod o alcohol, bygythiad gydag eitem â llafn, treisio, marwolaeth naturiol, pryder am ddiogelwch ac ymgais i niweidio.



Trosedd	Nifer y digwyddiadau 2022-2023	Nifer y digwyddiadau 2023-2024
S.47 Ymosodiad gydag Anaf	26	51
Ymosodiad cyffredin a churo S.39	30	33
Meddw ac afreolus	21	17
Cocên: Meddiant o gyffur a reolir Dosbarth A	11	7
S4 Ofn neu bryfocio trais	4	7

Tabl 2: Math o drosedd yn ôl nifer

Troseddau trais yw'r broblem amlycaf yn amlwg wrth asesu digwyddiadau o amgylch safleoedd trwyddedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chyfran fawr yn droseddau ymosodiad gydag anaf. Mae ymosodiad gydag anaf ac ymosodiad cyffredin a churo wedi gweld lefel gyson uwch o droseddau dros y ddwy flynedd.

Roedd lleiafrif bach o droseddau yn cynnwys meddiant o arf neu ddefnyddio arf. Roedd 12 o ddigwyddiadau yn ymwneud ag arfau, cafodd 1 ei ddefnyddio i achosi anaf a oedd yn wydr.

Arf	Nifer y Digwyddiadau 2022-2023	Nifer y Digwyddiadau 2023-2024
Cylllell	9	5
Eitem heb lafn	2	4
Gwydr	2	3

Tabl 3: Arfau yn ôl math a nifer

Roedd 20 o ddigwyddiadau yn cynnwys cyffuriau yn cael eu canfod ar unigolyn neu'r unigolyn yn cael ei dynnu o'r safle gan swyddogion diogelwch a welodd yr unigolion yn cymryd cyffuriau. Mae'r safleoedd hyn yn cadw at ddull rhagweithiol o ddim goddefgarwch tuag at ddefnyddio cyffuriau. Y cyffuriau dan sylw yn bennaf oedd cocên neu "bowdwr gwyn" gydag ychydig o ddigwyddiadau hefyd yn ymwneud â chanabis. Yn ystod y flwyddyn flaenorol roedd 27 o ddigwyddiadau safleoedd trwyddedig yn ymwneud â chyffuriau.

Bydd yr adran isod yn canolbwyntio ar y 5 safle trwyddedig uchaf o ran nifer y digwyddiadau a bydd yn dadansoddi'r mathau o ddigwyddiadau yn ogystal â'r diwrnodau a'r amseroedd brig pan fo digwyddiadau yn digwydd.

Safle Trwyddedig	Diwrnod Brig	Amser Gorffen Gwerthu Alcohol	Amser Cau Safle	Amser Brig Digwyddiadau
The Phoenix	Dydd Sul	03:00 o'r gloch	04:30 o'r gloch	03:00 o'r gloch
Edens Bar	Dydd Sul	04:00 o'r gloch	04:30 o'r gloch	02:00 o'r gloch
The Roof	Dydd Sadwrn	04:00am	04:30 o'r gloch	23:00 o'r gloch
Tair Pluen	Dydd Iau	02:00am	02:45 o'r gloch	18:00-21:00 o'r gloch



The Wyndham Arms	Dydd Sul	01:00am	02:00 o’r gloch	21:00 o’r gloch
------------------	----------	---------	-----------------	-----------------

Tabl 4: Safleoedd trwyddedig a'u hamseroedd brig o'i gymharu â gorffen gwerthu alcohol ac amseroedd cau

Mae The Phoenix, Edens a The Roof i gyd yn cau am 04:30 o'r gloch, a fyddai'n golygu mewnlif sydyn o unigolion ar yr adeg hon. Bydd llawer o'r unigolion hyn yn feddw yn agos at ei gilydd ac yn debygol o ymgynnull mewn mannau tebyg wrth chwilio am drafnidiaeth gyhoeddus adref.

Ac eithrio'r Tair Pluen, mae'r amseroedd brig i gyd ar nos Sadwrn i oriau mân dydd Sul.

4.1.1 The Phoenix

Math o Ddigwyddiad	Nifer y Digwyddiadau
CR37 Trais yn Erbyn y Person	27
CR45 Digwyddiad sy'n Gysylltiedig â Throsedd	9
AN18 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Niwsans	4
PS10 Pryder am Ddiogelwch	4

Tabl 5: Y mathau uchaf o ddigwyddiadau yn ôl nifer yn The Phoenix

Mae The Phoenix wedi gweld y lefel uchaf o drais eleni, gan gyrraedd uchafbwynt am 03:00 o'r gloch, sy'n cyd-fynd â diwedd gwerthu alcohol yn y lleoliad.

4.1.2 Edens Bar

Math o Ddigwyddiad	Nifer y Digwyddiadau
CR37 Trais yn Erbyn y Person	23
CR31 Cyffuriau	8
PS10 Pryder am Ddiogelwch	5

Tabl 6: Y mathau uchaf o ddigwyddiadau yn ôl nifer yn Edens Bar

Gwelodd Edens Bar hefyd lefel uchel o drais yn erbyn y person, yn ogystal â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, yn ymwneud yn bennaf â delio a meddu ar gocên.

4.1.3 Roof

Math o Ddigwyddiad	Nifer y Digwyddiadau
CR37 Trais yn Erbyn y Person	18
AN18 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Niwsans	4
TR6 Trosedd sy'n Gysylltiedig â'r Ffyrdd	4



Tabl 7: Y mathau uchaf o ddigwyddiadau yn ôl nifer yn The Roof

Gwelodd The Roof lefelau ychydig yn is o drais ond gwelodd hefyd lefelau uwch o gwsmeriaid yn gadael y lleoliad ac yn gyrru cerbyd yn syth pan fyddan nhw’n feddw. Gallai hyn fod oherwydd rhagweithioldeb y staff yn gwylio pan fydd cwsmeriaid yn gadael y lleoliad yn hytrach na niferoedd uwch na lleoliadau eraill.

4.1.4 Tair Pluen

Math o Ddigwyddiad	Nifer y Digwyddiadau
CR37 Trais yn Erbyn y Person	13

Tabl 8: Y mathau uchaf o ddigwyddiadau yn ôl nifer yn Tair Pluen

Gwelodd y Tair Pluen gyfnod hirach o lefelau uwch o ddigwyddiadau yn hytrach na phrofi amser brig. Efallai y bydd digwyddiad yn cael ei gynnal ar ddydd lau rhwng 18:00 a 21:00 o’r gloch sy’n achosi’r mewnlif hwn.

4.1.5 The Wyndham Arms

Math o Ddigwyddiad	Nifer y Digwyddiadau
PS10 Pryder am Ddiogelwch	14
CR37 Trais yn Erbyn y Person	9
CR41 Dwyn a Thrin	4
CR45 Digwyddiad sy'n Gysylltiedig â Throsedd	4

Tabl 9: Y mathau uchaf o ddigwyddiadau yn ôl nifer yn The Wyndham Arms

The Wyndham Arms oedd yr unig safle trwyddedig i beidio â gweld Trais yn erbyn y Person fel eu math mwyaf cyffredin o ddigwyddiad. Yma, troseddau Pryder am Ddiogelwch oedd fwyaf cyffredin. Gwelodd The Wyndham Arms hefyd ddigwyddiadau lladrad a thrin yn amlach na safleoedd eraill.

4.2 Ble

Yn ystod y cyfnod hwn bu 313 o ddigwyddiadau a ddigwyddodd y tu mewn, y tu allan i’r drws neu yn syth ar ôl i unigolyn adael safle trwyddedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Safle Trwyddedig	Nifer y digwyddiadau 2022-2023	Nifer y digwyddiadau 2023-2024
The Phoenix	58	57
Eden Bar Pen-y-bont ar Ogwr	63	49
The Roof	49	41




Gwesty'r Wyndham Arms	27	41
Tair Pluen	34	29
Tafarn y Railway	1	12
The Star	4	8
The Kings Head	1	7
The Three Horse Shoes	1	7
Cae'r Bragdy	7	5
The Old Castle	0	5
Gwesty Dunraven Arms	4	4
Nolton Corner	2	4
Corvo Lounge	7	4
The Riverside Tavern	7	1

Tabl 10: Safleoedd a welodd fwy na 3 digwyddiad yn ystod y naill gyfnod neu'r llall

Mae'r 5 safle trwyddedig uchaf yn cyfrif am 70% o'r holl ddigwyddiadau, felly bydd yr adroddiad yn parhau i ganolbwyntio ar y rhain.

Mae digwyddiadau wedi gostwng yn Edens Bar, er eu bod yn dal i gyfrif am gyfran fawr o droseddau. Mae troseddau wedi cynyddu yng ngwesty'r Wyndham Arms ac wedi aros yn gymharol debyg ym mhob lleoliad arall. Mae'r Railway Inn, The Star, The Kings Head a The Three Horse Shoes wedi gweld cynnydd bach mewn ffigyrau. Fodd bynnag, mae'r Railway Inn newydd gyhoeddi ei fod wedi cau.



Map 1: Paramedrau canol tref Pen-y-bont ar Ogwr


Mae'r map uchod yn dangos yr ardal a ystyrir yn ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y proffil problemau hwn. Mae'r llinell ddu doredig yn dangos yr hyn sy'n fwyaf tebygol o gael ei ystyried fel canol y dref, mae'r llinell las ddi-dor yn dangos yr ardal sy'n cael ei defnyddio yn y proffil problemau hwn. Mae'r ardal hon yn cwmpasu canol y dref ond mae wedi'i hehangu i gynnwys safleoedd trwyddedig Cae'r Bragdy a Heol y Bont-faen. Mae hyn oherwydd eu hagosrwydd a'r tebygolrwydd y bydd yr unigolion sy'n mynychu canol y dref yn debygol o fod yr un unigolion sy'n ymweld â'r safleoedd cyfagos hyn.



Map 2: Y 5 lleoliad uchaf o ran nifer y digwyddiadau


Mae'r map uchod yn dangos y 5 lleoliad uchaf yng nghanol y dref wedi'u lliwio'n oren. Mae'r ardal oren hon yn dangos ble mae'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yn digwydd, ac felly ble mae angen cyfeirio adnoddau.





Map 3: Delwedd agos o'r 5 lleoliad mewn perthynas â nifer y digwyddiadau


4.3 Pryd



Graff 1: nifer y digwyddiadau mewn safleoedd trwyddedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr fesul awr



Mae'r cyfraddau yn sylweddol uwch rhwng 22pm a 5am, gan gyrraedd uchafbwynt rhwng 2 a 3am. Mae amseroedd cau y 5 safle trwyddedig uchaf yn dechrau am 2am, gyda'r safle olaf yn cau am 4:30am.



Graff 2: Cymhariaeth o nifer y digwyddiadau fesul mis o fis Gorffennaf 22 - Mehefin 23 i fis Gorffennaf 23 - Mehefin 24

Yn ystod 2023 - 2024 cyrhaeddodd achosion uchafbwynt ym mis Rhagfyr, ac yna mis Ebrill a Mai. Yn 2022 - 2023 cyrhaeddodd y nifer uchafbwynt yn ystod mis Gorffennaf a Hydref. Mae'n ymddangos bod 2023 – 2024 yn dilyn patrwm mwy safonol o ran rhagweladwyedd gan fod mis Ebrill a Mai yn ddyddiadau gŵyl banc allweddol a mis Rhagfyr yw tymor yr ŵyl. Mae 2022-2023 o bosibl yn is oherwydd effaith COVID a'r straen a achosodd yn economaidd ac yn ddeddfwriaethol.

4.4 Pwy

4.4.1 Dioddefwyr

Roedd cyfanswm o 197 o ddioddefwyr gyda 129 o ddioddefwyr gwahanol, yn ogystal ag 8 dioddefwr ailadroddus sy'n cyfrif am 20 o ddigwyddiadau rhyngddynt. Ar draws y digwyddiadau roedd 54 lle'r oedd y dioddefwr yn REX, sy'n golygu nad oedd unrhyw ddioddefwr penodol.


Dioddefwr	Rhywedd	Nifer y Digwyddiadau 2022-2023
11147444	Benyw	4
1161557	Benyw	2
10010158	Gwryw	2
9584768	Gwryw	2
10394405	Benyw	2
1144762	Gwryw	2
1049009	Gwryw	2
1017436	Gwryw	2
875570	Benyw	2
10061173	Gwryw	2

Dioddefwr	Rhywedd	Nifer y Digwyddiadau 2023-2024
11201967	Benyw	4
7209344	Gwryw	4
10010158	Gwryw	2
99638	Gwryw	2
290621	Gwryw	2
1733299	Gwryw	2
743559	Gwryw	2
11176405	Gwryw	2



Tablau 11 a 12: Dioddefwyr ailadroddus gan gynnwys Dynodwr, Rhywedd a nifer y digwyddiadau ar gyfer y ddau gyfnod.

Roedd dioddefwyr ailadroddus yn 2022-2023 ychydig yn fwy tebygol o fod yn ddynion, fodd bynnag yn ystod 2023-2024 roedden nhw'n sylweddol fwy tebygol o fod yn ddynion



Graff 3: Rhaniad rhywedd ymhlith dioddefwyr

Graff 4: Oedran y dioddefwyr

Roedd y dioddefwyr yn fwyaf tebygol o fod yn ddynion rhwng 18 a 34 oed.

4.4.2 Y Sawl Dan Amheuaeth

Roedd 223 o bobl dan amheuaeth, 193 ohonynt yn bobl ar wahân. Roedd 19 o unigolion ailadroddus, gan gyfrif am 49 o ddigwyddiadau. Roedd un o'r rhai dan amheuaeth ailadroddus gyda 2 ddigwyddiad, hefyd yn ddioddefwr ailadroddus gyda 2 ddigwyddiad, enw 10010158.



Y sawl dan amheuaeth	Rhywedd	Di	Y sawl dan amheuaeth	Rhywedd	Nifer y Digwyddiadau
1147099	Gwryw		1177997	Gwryw	7
1145075	Gwryw		9418938	Benyw	4
			9500620	Gwryw	4
			824155	Gwryw	3
			1145075	Gwryw	3

Tablau 13 a 14: Pobl dan amheuaeth gan gynnwys dynodwr, rhywedd a nifer y digwyddiadau. Ffigurau 2022-2023 ar y chwith a ffigurau 2023-2024 ar y dde.

Mae un dan amheuaeth yn ymddangos yn y ddau gyfnod amser 3 gwaith yn eu tro, roedd y troseddau hyn yn ymwneud ag ymosodiadau a bod yn feddw ac afreolus. Mae'r unigolyn ailadroddus uchaf yn y cyfnod 2023-



2024, 1177997, yn ymwneud yn bennaf â throseddau sy'n cynnwys ymladd ac aflonyddwch, ond roedd 1 hefyd yn ymwneud â meddiant canabis ac 1 yn ymwneud â thorri Hysbysiad Gwarchod y Gymuned.



Graff 5: Rhaniad rhywedd ymhlith y rhai dan amheuaeth

Graff 6: Oedran y rhai dan amheuaeth

Roedd pobl dan amheuaeth yn sylweddol fwy tebygol o fod yn ddynion, ond yn wahanol i ddiodefwyr, gwelwyd rhaniad cymharol gyfartal rhwng y grwpiau oedran 18-24, 25-34 a 35-44.

4.5 Pam

Ffactor clir yw bod y mwyafrif helaeth o ddigwyddiadau yn cynnwys unigolion sy'n feddw iawn ac y mae eu gweithredoedd o bosibl yn codi neu yn gwaethygu o ganlyniad i'r ffactor hwn.

Mae'r diodefwyr a'r rhai dan amheuaeth yn ddynion yn bennaf, gellid awgrymu bod y diwylliant ymhlith dynion pan fyddant mewn grwpiau a gyda ffrindiau ar nosweithiau allan yn ffactor gwaethygu. Mae hyn yn codi'r cwestiwn sut gallwn ni annog dynion i ddatrys anghydfodau heb droi at drais? Neu atal anghydfodau rhag codi yn y lle cyntaf. Yn sicr, ni fydd hyn yn newid hawdd na gweithredol i'w wneud, fodd bynnag, efallai y bydd camau bach i gefnogi hyn y gellir eu cymryd. Mae'n amlwg nad oes gan yr heddlu yr adnoddau i blismona popeth, yn enwedig pan fydd digwyddiadau ar eu huchaf yn ystod economi'r nos, fodd bynnag, gellid cyflwyno negeseuon mewn ffyrdd eraill. Gellid argymhell bod safleoedd trwyddedig yn cael poster i'w harddangos mewn mannau lle mae unigolion aros neu oedi yn aml, yn bennaf mannau fel y toiledau neu ciwio wrth y bar. Gallai'r rhain ddangos negeseuon sy'n ysgogi'r meddwl sy'n ymwneud â phethau fel; sut gall un dyrniad gymryd bywyd, gwybod pryd i stopio, mae prynu alcohol i ffrindiau meddw yn anghyfreithlon a pheidio â gadael i un noson feddw ddifetha eich bywyd. Nid yw poster yn darparu unrhyw gyfyngiad na chymorth corfforol, ond gallant ddarparu'r potensial i wneud i rywun feddw ddwywaith. Gellir atal ymddygiad negyddol a threisgar hefyd drwy orfodi gwaharddiadau ar unigolion sy'n arddangos yr ymddygiadau hyn.

Mae'r tri safle mwyaf o ran maint a phroblemau nifer y digwyddiadau yn agos at ei gilydd gyda'r un oriau cau, sy'n golygu mewnlf mawr o unigolion meddw ac agored i niwed ar yr un adeg o sawl lleoliad. Mae hyn yn debygol o fod yn ffactor gwaethygu mewn anghydfodau ac ymladd. Gellid awgrymu pe bai'r amseroedd yn cael eu gwasgaru, yn enwedig ar nos Sadwrn, y gallai hyn leihau'r mewnlf hwn. Gallai hefyd fod yn fuddiol i gyfeirio



unigolion sy'n gadael y lleoliadau hyn i gyfeiriadau gwahanol fel eu bod yn llai tebygol o gyfarfod, neu o leiaf yn dechrau gwasgaru yn gyntaf, gan ddefnyddio rhwystrau o bosibl, gyda dull tebyg i hwnnw a ddefnyddir mewn gorsafoedd trên ar gyfer digwyddiadau ond ar raddfa lai. Nid yw hyn i gyfyngu unigolion ond i'w hannog i wahanol gyfeiriadau.

Yn yr un modd, gall defnyddio swyddogion tacsï i gyfarwyddo a rheoli torfeydd o unigolion sy'n aros wrth safleoedd tacsï fod yn fuddiol.

Gan ganolbwyntio ar y mater o ddefnyddio cyffuriau, sy'n arbennig o gyffredin yn Edens Bar, gellid awgrymu mwy o bresenoldeb yr heddlu y tu allan i'r lleoliad hwn. Gall hefyd fod yn fuddiol defnyddio ci cyffuriau neu sganiwr cyffuriau cyflym o bryd i'w gilydd i weithredu fel ataliad i'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliad hwn fel llwyfan i brynu a gwerthu cyffuriau.

5 CASGLIAD

I gloi, mae'n amlwg bod y safleoedd trwyddedig yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn gweld digwyddiadau trais yn bennaf, gan arwain at ymosodiad gydag anaf neu ymosodiad cyffredin a churo. Yn ogystal â gweld digwyddiadau o bryder am ddiogelwch. Mae'r safleoedd trwyddedig sy'n gweld y nifer uchaf o ddigwyddiadau i gyd yn agos at ei gilydd ac felly Wyndham Street a Stryd y Farchnad yw'r strydoedd y mae angen canolbwyntio arnynt ac adnoddau ychwanegol, yn enwedig The Phoenix ac Edens Bar. Mae'r gan y safleoedd trwyddedig hyn y cyfraddau uchaf o ddigwyddiadau a thrais, gydag Edens Bar hefyd yn fan problemus o ran cyffuriau, cocên yn bennaf.

Yr amseroedd mwyaf critigol ar gyfer safleoedd trwyddedig yw rhwng 02:00 a 03:00 o'r gloch, mae'n debyg bod hyn oherwydd bod hwn yn amser poblogaidd i adael, gan fod gwerthiant alcohol yn dod i ben am 03:00hrs yn The Phoenix. Mae'r cyfraddau yn parhau i fod yn uchel am 04:00 o'r gloch, mae'n debyg o ganlyniad i'r amser cau a'r amseroedd gwerthu alcohol sy'n weddill rhwng 04:00 a 04:30 o'r gloch. Mae'r adeiladau sy'n cau ar yr adegau hyn yn agos at ei gilydd, sy'n debygol o greu mewnlif o unigolion meddw ac agored i niwed, ac mae'n debygol bod hyn yn ffactor gwaethygu yn y cyfraddau uchel o drais.

Ffactor amlwg arall sydd, yn ôl pob tebyg, yn esbonio agwedd ar y lefelau trais uchel yw'r diwylliant ymhlith dynion iau i ganol oed. Mae tua 75% o'r rhai dan amheuaeth yn ddynion, ac felly mae mynd i'r afael â'r syniad o ddynion yn ymateb â thrais yn hanfodol, er ei fod yn llawer anoddach i'w weithredu.

O ran camau y gall y safle eu cymryd, mae'n debyg mai gwahardd troseddwy'r ailadroddus, gwasgaru amseroedd cau ac ailgyfeirio unigolion sy'n gadael safle trwyddedig fel nad ydynt yn croesi llwybrau yw'r opsiynau mwyaf effeithiol y gellir eu rhoi ar waith. O ran camau plismona, mae'n debyg mai mwy o bresenoldeb ar y ddwy stryd broblemus, yn enwedig y tu allan i Edens Bar yw'r mwyaf buddiol, ynghyd â phresenoldeb ci cyffuriau a sganiwr cyffuriau i weithredu fel atalydd.



6 ATODIAD

Rhestr drwyddedu, canol tref Pen-y-bont ar Ogwr gan ddefnyddio'r gronfa ddata drwyddedu.

- (Dunraven) Cae'r Bragdy
- Clwb Rygbi Cigfran Pen-y-bont ar Ogwr, bar Top-up, Naadaan Bwyd, Prime Burger, Taqueria (i gyd y tu mewn i Gae'r Bragdy)
- Little Bar on the Bridge (3 yr hen bont)
- Wyndham Arms
- Il Panino
- Zia Nina
- Poco Poco
- Fone zone
- Nolton Corner
- The Three Horseshoes
- Il Vecchio (yr hen fwthyn)
- Morgan's Bistro
- Siop Goffi Aroma
- Natraj Tandoori
- Bryggen Eynde (yn ffurfiol, ac yn dal i gael ei gofnodi fel Dorothy Perkins)
- Corvo Lounge
- The Phoenix (grŵp barracuda)
- Dunraven Arms
- The Roof
- Coity Castle
- Luna Live Lounge (clwb nos sax gynt)
- The Kings Head
- Eden bar
- The railway inn (caeodd ym mis Mehefin 2024)

Ardal Estynedig

- Ashoka Tandoori
- Exotic Shaad
- The Old Castle
- The Five Bells Inn
- Cabo Roche
- Clwb Rygbi Pen-y-bont ar Ogwr
- The Coach

